# Cynnwys, symbylu a chadw gwirfoddolwyr

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio gyda gwirfoddolwyr i ganolbwyntio ar natur eich perthynas â gwirfoddolwyr. O’r adeg cyn eu bod yn ymrwymo i wirfoddoli, trwy gydol eu hamser gyda’ch sefydliad, a’r tu hwnt i derfyn eu cytundeb gwirfoddoli ffurfiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. defnyddio dulliau cytunedig i nodi:
• y mathau o bobl a all ddymuno gwirfoddoli
• ffyrdd o gael at ddarpar wirfoddolwyr
• y symbyliadau allweddol sydd gan bobl dros ddymuno i wirfoddoli
2. defnyddio dulliau cyfathrebu cost effeithiol ac amser effeithiol priodol i gael at grwpiau o ddarpar wirfoddolwyr
3. helpu darpar wirfoddolwyr i ddeall:
• pwysigrwydd gwirfoddoli i fodloni nodau eich sefydliad
• sut gall pobl â galluoedd, arddulliau a symbyliadau amrywiol wneud cyfraniadau gwerthfawr fel gwirfoddolwyr
• y cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddoli a beth sydd ynghlwm
• yr ymrwymiad y mae angen iddynt ei wneud fel gwirfoddolwyr
• buddion posibl gwirfoddoli a sut gall gwirfoddoli fodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau
4. darparu tystiolaeth ffeithiol er mwyn dangos sut mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu ac elwa'n bersonol yn y gorffennol
5. darparu cyfleoedd i bobl archwilio cyfleoedd i wirfoddoli ac ymrwymo i ddod yn wirfoddolwr
6. cyfeirio pobl at sefydliadau gwirfoddoli eraill, lle bo hynny'n briodol
7. gwerthuso a dadansoddi'r ymateb i'ch gweithgareddau hyrwyddo
8. helpu gwirfoddolwyr i ddod o hyd i leoliadau sydd:
• yn bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau sy'n esblygu
• yn caniatáu iddynt gyfrannu eu profiad, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd mewn ffyrdd pendant at gyflawni nodau eich sefydliad
9. darparu digon o gymorth a goruchwyliaeth i ganiatáu i wirfoddolwyr gyflawni eu rôl a'u tasgau yn effeithiol ac yn ddiogel
10. darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr fyfyrio ar eu profiad o wirfoddoli a mynegi'r profiad hwn
11. darparu adborth rheolaidd, cywir a chytbwys i wirfoddolwyr am eu cyfraniadau unigol a chyfunol, a'u gwerth i'ch sefydliad
12. annog gwirfoddolwyr i ymestyn eu rolau o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd
13. cadarnhau bod gwirfoddolwyr yn deall beth mae angen iddynt ei wneud os

ydynt yn dymuno newid eu rôl a’u cyfraniad at eich sefydliad

14. gwahodd gwirfoddolwyr i drafod eu cyfraniad at eich sefydliad, pryd bynnag y bydd arwyddion nad yw eu rôl bresennol yn briodol mwyach
15. gwirio bod gwirfoddolwyr yn dychwelyd holl eiddo eich sefydliad pan ddaw eu cytundeb i derfyn
16. rhoi gwybod i bobl berthnasol am y rhesymau pam mae gwirfoddolwyr yn dod a’u cytundebau i derfyn a sut gallai profiad gwirfoddoli gyda’ch sefydliad gael ei wella
17. cofnodi gwybodaeth yn gywir yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. sut i adnabod y mathau o bobl a all ddymuno gwirfoddoli eu gwasanaethau
4. dulliau o adnabod symbyliadau pobl a sut i ddewis a defnyddio dulliau priodol
5. egwyddorion cyfathrebu effeithiol a sut i'w cymhwyso
6. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion unigolion
7. gwerth amrywiaeth o alluoedd, arddulliau a symbyliadau ymhlith gwirfoddolwyr a sut i feithrin amrywiaeth o'r fath
8. pwysigrwydd cadw cofnodion clir a chywir a sut i wneud hynny
9. egwyddor cyfrinachedd a pha wybodaeth all gael ei darparu i bwy
10. egwyddorion sylfaenol symbyliad a sut maent yn berthnasol i'ch gwaith
11. sut i helpu pobl i fynegi eu symbyliadau a deall sut gall gwirfoddoli fodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau sy'n esblygu
12. pwysigrwydd annog gwirfoddolwyr i ymestyn eu rolau gwirfoddoli a sut i wneud hynny
13. pwysigrwydd cael adborth gwybodus gan bobl a sut i wneud hynny
14. gweithgareddau ehangach eich sefydliad, y gallai gwirfoddolwyr gymryd rhan ynddynt
15. y mathau o berthynas bosibl sydd gan wirfoddolwyr gyda'ch sefydliad ar ôl i'w cytundeb ddod i derfyn
16. aelodau eich sefydliad y mae angen iddynt wybod am y rhesymau pam mae gwirfoddolwyr yn dymuno dod â'u cytundebau i derfyn a sut gall y profiad gwirfoddoli gael ei wella
17. pwysigrwydd sicrhau bod dulliau cyfathrebu yn gost effeithiol ac yn amser effeithiol a sut i wneud hynny
18. y lefelau cymorth a goruchwyliaeth gwahanol y mae ar wirfoddolwyr eu hangen, sut i asesu'r lefelau hyn a darparu cymorth priodol
19. y cymorth y gall gwirfoddolwyr ei ddarparu i wirfoddolwyr a staff eraill a sut i'w hannog i ddarparu'r cymorth hwn
20. pwysigrwydd adolygu cyfraniad gwirfoddolwyr yn rheolaidd gyda gwirfoddolwyr

a sut i wneud hynny
21. yr amrywiaeth o arwyddion nad yw rôl bresennol gwirfoddolwr yn briodol mwyach a sut i adnabod y rhain
22. pwysigrwydd gwirfoddoli i fodloni nodau eich sefydliad
23. yr amrywiaeth o rolau y gall gwirfoddolwyr eu cyflawni a ffyrdd y gallant gyfrannu at nodau'r sefydliad
24. yr ystod o alluoedd, arddulliau a symbyliadau sydd gan wirfoddolwyr a sut mae'r rhain yn effeithio ar y mathau o rolau a gweithgareddau y maent yn eu cyflawni
25. y cyfleoedd i wirfoddoli sydd ar gael yn eich sefydliad
26. y buddiant a gaiff gwirfoddolwyr o wirfoddoli
27. y math o ymrwymiad y mae angen i wirfoddolwyr ei wneud
28. cyfleoedd i bobl ymrwymo i ddod yn wirfoddolwr
29. sefydliadau gwirfoddoli eraill y gall fod yn briodol cyfeirio gwirfoddolwyr atynt
30. manylion am rolau gwirfoddol penodol y mae angen i wirfoddolwyr wybod amdanynt
31. pwysigrwydd dod â chytundebau gyda gwirfoddolwyr i derfyn mewn ffyrdd sy'n gadael siawns am gyfleoedd yn y dyfodol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | UKWH B2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethau Cyhoeddus, Eiriolydd Annibynnol ynghylch Trais Rhywiol, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Cynnwys, gwirfoddolwyr, cadw |